Ministry of Justice

# Cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau

## Newidiadau i gynlluniau ffioedd

Mae’r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 08 Mai 2026

Daw’r ymgynghoriad hwn i ben ar 19 Mehefin 2026

[gadewch y dudalen hon yn wag - cefn y clawr]

Ministry of Justice

# Cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau

## Newidiadau i gynlluniau ffioedd

**Papur ymgynghori wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/**

http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/http://www.gov.uk/official-documents

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Anelir yr ymgynghoriad hwn at unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o’r proffesiwn cyfreithiol a’u cyrff cynrychioladol proffesiynol, crwneriaid ac aelodau eraill o’r farnwriaeth, a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth sydd â phrofiad o broses cwest a chael gafael ar gymorth cyfreithiol. |
| **Hyd:** | Rhwng 08 Mai ac 19 Mehefin 2026 |
| **Dylid anfon ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/legal-aid-for-inquests-changes-to-fee-schemes/<br><br>Civil Legal Aid Policy Team<br><br>Ministry of Justice<br><br>102 Petty France<br><br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: civil.legalaidpolicy@justice.gov.uk |
| **Sut mae ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 19 Mehefin at:<br><br>Civil Legal Aid Policy Team<br><br>Ministry of Justice<br><br>102 Petty France<br><br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: civil.legalaidpolicy@justice.gov.uk |
| **Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich barn:** | Bydd fersiwn Saesneg o’r ymgynghoriad hwn ar gael.<br><br>Mae fersiwn hawdd ei darllen o’r ymgynghoriad ar gael ar gais drwy’r manylion cyswllt uchod.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer “Ymholiadau” uchod. |

| | |
|---|---|
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn hydref 2026 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

**Rhagair** **4**

**Crynodeb gweithredol** **6**

**Cyflwyniad** **8**

Trosolwg o’r system cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr 9

Cwestau 11

Y trefniadau cymorth cyfreithiol presennol ar gyfer cwestau 11

Trosolwg o'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) 13

**Pennod Un: Camau rydym yn eu cymryd ar drefniadau cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau** **15**

Creu categori cyfraith contract cwestau 15

Newidiadau i drefniadau cymorth cyfreithiol Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig ar gyfer gwaith achos cwest 17

**Pennod Dau: Y cynigion** **19**

Newidiadau i’r cynllun ffioedd help cyfreithiol 19

Newidiadau i reoliadau taliadau cydnabyddiaeth: gwasanaethau cyfreithiol eraill (OLS) 23

Crynodeb o'r cynigion 26

**Holiadur** **27**

**Pennod Tri: Casgliad a’r camau nesaf** **29**

**Amdanoch chi** **30**

**Manylion Cyswllt/Sut mae Ymateb** **31**

Cwynion neu sylwadau 31

Copïau ychwanegol 31

Cyhoeddi’r ymateb 31

Grwpiau cynrychioliadol 31

Cyfrinachedd 32

**Asesiad o'r Effaith, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg 33**

Asesiad o'r Effaith 33

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 33

**Egwyddorion ymgynghori 34**

**ATODIAD A: Cynlluniau ffioedd Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig Arfaethedig 35**

[gadewch y dudalen hon yn wag - cefn y dudalen gynnwys]

# Rhagair

Roedd trychineb Hillsborough yn drychineb erchyll a siglodd ein gwlad. Ond i deuluoedd y 97 o ddioddefwyr, megis dechrau eu dioddefaint oedd hyn.

Roedd teuluoedd mewn galar yn wynebu gorfod dod o hyd i ffordd o ariannu hyd yn oed un cyfreithiwr, tra bod grym llawn y Wladwriaeth - gyda chefnogaeth timau cyfreithiol a oedd yn cael eu hariannu gan drethdalwyr - yn sefyll yn eu herbyn. Roedd hwn yn anghydbwysedd sylweddol a ychwanegodd at eu galar ymhellach, ac ni ddylai fyth ddigwydd eto.

Dyna pam mae'r Llywodraeth hon wedi cyflwyno'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd), a elwir yn Gyfraith Hillsborough - sy'n brawf o ddewrder a natur benderfynol eithriadol y teuluoedd a gollodd anwyliaid a'u hymgyrch dros newid, sydd wedi para degawdau.

Bydd y Bil hwn yn sefydlu dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol ar awdurdodau a gweision cyhoeddus, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu'n dryloyw. Yn hollbwysig, bydd hefyd yn hyrwyddo 'cydraddoldeb arfau', drwy'r ehangiad mwyaf mewn cymorth cyfreithiol rydym wedi'i weld ers cenhedlaeth. Mae'n golygu y bydd pob teulu sydd wedi cael profedigaeth yn gallu cael gafael ar help cyfreithiol ac eiriolaeth a ariennir yn gyhoeddus, mewn cwestau lle mae awdurdod cyhoeddus wedi cael ei enwi fel person â buddiant.

Mae hwn yn gam pwysig tuag at degwch, ond mae angen i ni wneud yn siŵr bod gennym y trefniadau cywir ar waith er mwyn iddo weithio.

Mae hynny'n golygu gwneud yn siŵr bod y prosesau dan sylw mor syml â phosibl, er mwyn i ni allu lleihau oedi a chaniatáu i gyfreithwyr dreulio mwy o amser yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth, yn hytrach na llywio systemau diangen o gymhleth.

Rydym yn cymryd camau ymarferol i symleiddio'r broses a sicrhau bod teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn cael mynediad llawn a chyflym at gyfiawnder.

Mae hyn yn cynnwys gwneud y farchnad yn hygyrch i fwy o ddarparwyr, drwy'r bwriad i gyflwyno categori cyfraith contract anghyfyngedig newydd ar gyfer cwestau. A byddwn yn ehangu'r diffiniad o 'wasanaethau cyfreithiol eraill', er mwyn i ddarparwyr allu cyflawni elfennau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau help cyfreithiol ac eiriolaeth mewn un pecyn cymorth, i aelodau o'r teulu sy'n cael eiriolaeth gyda chymorth cyfreithiol.

Yn ogystal â'r camau uchod, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddiwygio'r cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Nod ein cynigion yw symleiddio ffioedd drwy symud i un cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol ar gyfer pob cwest, ni waeth ym mha gategori cyfraith y mae'r gwaith yn cael ei wneud; a chynnwys cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad ydynt yn ymwneud ag eiriolaeth yn ogystal ag eiriolaeth mewn Gwaith Trwyddedig.

Gyda'i gilydd, bwriad y camau arfaethedig yw cefnogi effeithiolrwydd trefniadau cymorth cyfreithiol i deuluoedd o dan y Bil, gan ddarparu mynediad at gyfiawnder y mae llawer wedi brwydro drosto ers cyhyd.

Byddwn yn monitro'r newidiadau hyn yn ofalus, gan weithio gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) a rhanddeiliaid, i sicrhau y cyflawnir ar ran darparwyr, ac, yn bwysicaf oll, y teuluoedd y cynllunnir i'w gwasanaethu.

Drwy'r camau hyn, gan gynnwys y cynigion rydym yn ymgynghori arnynt yma, mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â sicrhau nad oes yn rhaid i unrhyw deulu fyth eto frwydro am ddegawdau i ddatgelu'r gwirionedd. Maent yn ymwneud ag adfer cydbwysedd lle bu anghyfiawnder ar un adeg. Ac yn anad dim, maen nhw'n ymwneud ag anrhydeddu cof y rheini a gollodd eu bywydau yn Hillsborough - gyda system gyfiawnder sy'n deg, yn dryloyw ac yn deilwng o'u henwau.

**Sarah Sackman CB AS**

**Gweinidog Gwladol dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r papur ymgynghori hwn wedi'i drefnu'n gyflwyniad a thair pennod.

Yn y **Cyflwyniad**, rydym yn crynhoi'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwest, a'r newidiadau i gwmpas a fyddai'n dod i rym ar ddechrau'r darpariaethau cymorth cyfreithiol yn y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) ('y Bil').

Yn amodol ar ei daith Seneddol, mae'r Bil yn debygol o gael Cydsyniad Brenhinol erbyn hydref 2026. Ar ddechrau'r Bil, bydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer help cyfreithiol ac eiriolaeth â chymorth cyfreithiol, heb brawf modd, i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth mewn perthynas â chwestau yng Nghymru a Lloegr, lle mae awdurdod cyhoeddus yn berson â buddiant. Rhagwelir y bydd cychwyn darpariaethau cymorth cyfreithiol y Bil yn cynyddu nifer yr achosion cwest gyda chymorth cyfreithiol bob blwyddyn o niferoedd hanesyddol o tua 200-400, i tua 11,400.

Mae angen datblygu ein trefniadau cymorth cyfreithiol presennol ar gyfer cwestau er mwyn ymateb i heriau cwmpas a graddfa'r ehangu hwn. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am safbwyntiau o ran helpu i weithredu newidiadau i gymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau.

Mae **Pennod Un** yn nodi'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i symleiddio'r broses ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwest. Dyma grynodeb o'r camau hynny:

- dwyn ynghyd y gwahanol lwybrau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwest, drwy greu categori contract newydd o gyfraith ar gyfer cwestau o fewn trefniadau contract cymorth cyfreithiol sifil, gan ddarparu fframwaith cliriach a mwy cyson wrth i'r niferoedd gynyddu. Bydd darparwyr sydd â chontractau mewn categorïau cyfraith presennol yn gallu parhau i gynnal gwaith cwest yn y categorïau hyn lle mae pwnc y cwest yn dod o dan y categori hwnnw; ac
- yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol a thaith y Bil, rydym yn cynnig diwygio'r diffiniad o wasanaethau cyfreithiol eraill (OLS), gyda'r Llywodraeth yn diwygio'r Bil, gan ehangu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cwmpasu o dan OLS.

**Nid yw'r camau a nodir ym Mhennod Un yn destun yr ymgynghoriad hwn.** Pwrpas y bennod hon yw rhoi cyd-destun ehangach ar y newidiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno i gefnogi system cymorth cyfreithiol effeithiol ar gyfer cwestau. Bydd hyn yn caniatáu i ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn ystyried yn llawn y cynigion ym Mhennod Dau yng nghyd-destun y newidiadau ehangach a ragwelir.

**Mae Pennod Dau yn nodi'r cynigion sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.** Y cynigion yw newid Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau Cydnabyddiaeth) 2013 ('y Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth') ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, er mwyn:

- cyflwyno un cynllun ffioedd ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol a gynhelir ar gyfer cwestau (byddem yn cyflwyno'r newid hwn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil); a
- dod â chyfraddau ffioedd ar gyfer elfennau gwasanaeth help cyfreithiol (gan gynnwys paratoi a phresenoldeb, teithio ac aros, a llythyrau a galwadau rheolaidd) ac eiriolaeth at ei gilydd mewn un lle, ar gyfer aelodau teulu sy'n derbyn eiriolaeth cymorth cyfreithiol (byddem yn gwneud y newid hwn yn amodol ar ddiwygiad y Llywodraeth a'r Cydsyniad Brenhinol i'r Bil yn pasio'n llwyddiannus).

Mae **Pennod Tri** yn nodi'r casgliad a'r camau nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored am chwe wythnos gan ddod i ben 19 Mehefin 2026. Edrychwn ymlaen at glywed barn y rheini sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn.

# Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i drefniadau'r cynllun ffioedd ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn perthynas â chwestau. Yn gryno, rydym yn cynnig:

a) symud i un cynllun ffioedd am help cyfreithiol; a

b) defnyddio cyfraddau ffioedd ar gyfer elfennau gwasanaeth help cyfreithiol ochr yn ochr â'r cyfraddau ffioedd presennol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth, o fewn gwasanaethau cyfreithiol eraill.

Anelir yr ymgynghoriad at unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys darparwyr presennol a phosibl cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â chyrff cynrychioladol, crwneriaid ac aelodau eraill o'r farnwriaeth. Fe'i bwriedir hefyd ar gyfer bargyfreithwyr: nid yw'r cynigion yn cynnwys newidiadau i drefniadau presennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i fargyfreithwyr, ond gofynnir am eu barn fel gweithwyr proffesiynol allweddol wrth ddarparu cymorth cyfreithiol mewn cwestau.

Rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth sydd â phrofiad o gwestau a chael gafael ar gymorth cyfreithiol.

Mae Asesiad o'r Effaith ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Gweler y dogfennau hyn am fanylion llawn neu'r adran 'Asesiad o'r Effaith, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg' tua diwedd yr ymgynghoriad hwn i gael crynodeb.

# Trosolwg o'r system cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr

Mae cymorth cyfreithiol yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ('LASPO').

Er mwyn cael gafael ar gymorth cyfreithiol sifil, rhaid i fater cyfreithiol ymgeisydd naill ai fod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol neu fod yn gymwys i gael cyllid achos eithriadol (ECF), lle byddai'n torri neu mewn perygl o dorri hawliau dynol neu gyfraith (UE) a gymhathwyd os na ddarperir cyllid, neu lle gwneir penderfyniad ehangach er budd y cyhoedd, yn amodol ar y profion modd a rhinweddau.

Mae'r materion sydd o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol wedi'u nodi yn rhan 1 o atodlen 1 LASPO. Rhaid i'r cais hefyd basio'r profion rhinweddau a modd perthnasol. Mae'r prawf rhinweddau'n nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i gais eu bodloni i gyfiawnhau darparu cymorth cyfreithiol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, pa mor debygol yw'r hawliad o lwyddo a'r budd i'r cleient. Mae'r meini prawf penodol sy'n berthnasol yn dibynnu ar y math o achos a'r math o gymorth cyfreithiol a geisir. Mae'r prawf modd yn asesu cymhwysedd ariannol yr ymgeisydd. Nid yw rhai achosion yn destun prawf modd, sef achosion 'heb brawf modd'.

Mae'r cynllun cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr yn darparu cyngor cyfreithiol, cymorth, cynrychiolaeth mewn llys neu dribiwnlys, a chyfryngu a ariennir yn gyhoeddus i unigolion cymwys ar draws amrywiaeth o faterion cyfreithiol sifil. At ddibenion contract, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn grwpio'r gwasanaethau hyn i'r categorïau cyfreithiol canlynol: hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus (CAPA), esgeuluster clinigol, gofal yn y gymuned, gwahaniaethu, addysg, teulu, tai a dyled, mewnfudo a lloches, iechyd meddwl, cyfraith gyhoeddus, a budd-daliadau lles. Pan nad yw gwasanaeth yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau hyn, mae'n cael ei ddosbarthu fel gwaith amrywiol.

Mae cymorth cyfreithiol sifil fel arfer yn cwmpasu help cyfreithiol (cyngor a chymorth cynnar cyn achos llys, ond nid cychwyn neu gynnal achos llys) a chynrychiolaeth gyfreithiol (ac eithrio'r trefniadau ar gyfer cwestau, fel y nodir ymhellach isod). Mae cynrychiolaeth gyfreithiol yn cael ei hariannu'n bennaf fel Gwaith Trwyddedig ar gyfer achosion gwrthwynebol (a ddarperir drwy dystysgrif cymorth cyfreithiol a gyhoeddir gan yr LAA i'r darparwr cymorth cyfreithiol). Mae help cyfreithiol yn cael ei ariannu fel Gwaith Rheoledig, lle mae penderfyniadau modd a rhinweddau yn cael eu dirprwyo gan awdurdodiadau o dan adrannau 5 a 6 LASPO 2012 i ddarparwyr, yn amodol ar delerau'r contract perthnasol. Mae Gwaith Rheoledig help cyfreithiol hefyd yn cynnwys cyfryngu teuluol a Chynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig (ar gyfer rhai materion mewnfudo ac iechyd meddwl).

## Cwestau

Mae crwneriaid yn ddeiliaid swyddi barnwrol annibynnol, dan arweiniad y Prif Grwner, sydd â dyletswydd i ymchwilio i farwolaethau a adroddwyd iddynt a allai fod wedi bod yn dreisgar neu'n annaturiol, a achoswyd yn anhysbys, neu a ddigwyddodd yn y carchar neu yn nalfa arall y wladwriaeth.

Pan fydd dyletswydd y crwner i ymchwilio yn berthnasol, bydd yn agor ymchwiliad. Gall hyn arwain at wrandawiad mewn llys cyhoeddus o'r enw cwest, a'i swyddogaeth yw ateb pedwar cwestiwn statudol mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi marw: pwy fu farw a phryd, ble a sut y bu farw (sy'n golygu 'trwy pa fodd'). Pan fydd Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn berthnasol, mae'r 'sut' yn golygu 'trwy pa fodd ac ym mha amgylchiadau'.

Proses ymholi yw cwest a gychwynnir gan y crwner; yn wahanol i achosion sifil a throseddol, nid yw'n gweithredu fel fforwm gwrthwynebol i ddatrys anghydfodau ar gyfer partïon sy'n cystadlu. Ni all feio neb na phennu atebolrwydd troseddol na sifil. Mae'r gwasanaeth crwneriaid wedi'i drefnu ar draws 74 ardal crwner yng Nghymru a Lloegr, pob un yn cael ei arwain yn farnwrol gan uwch grwner ac yn cael ei ariannu gan awdurdod lleol arweiniol (mewn rhai ardaloedd gyda staff yn cael eu darparu neu eu hariannu gan yr heddlu lleol).

## Y trefniadau cymorth cyfreithiol presennol ar gyfer cwestau

Mae'r trefniadau cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau wedi'u rhannu'n help cyfreithiol ac eiriolaeth.

**Help cyfreithiol**
Mae help cyfreithiol ar gael ar hyn o bryd i aelodau teulu'r ymadawedig mewn perthynas â phob cwest, yn amodol ar brawf modd a rhinweddau. Gellir datgymhwyso'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol:

(a) os gofynnir am help cyfreithiol ar y cyd â chais ECF llwyddiannus am eiriolaeth yn y cwest; neu

(b) pe bai'r ymgeisydd yn gwneud cais am ECF, mae'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC)[1] o'r farn y byddai'r cais yn rhesymol debygol o lwyddo.

[1] Mae'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol presennol hefyd yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Diffinnir cymorth cyfreithiol yn rhan 1, rheoliad 4 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) 2012 (‘y Rheoliadau Gweithdrefnau’) a rheoliad 13 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Rhinweddau) 2013 (‘y Rheoliadau Rhinweddau’) fel a ganlyn:

*Mae “help cyfreithiol” yn golygu darparu gwasanaethau cyfreithiol sifil ar wahân i*
*(a) weithredu fel cyfryngwr neu gymrodeddwr;*
*(b) cychwyn neu gynnal achos llys;*
*(c) cyfarwyddo eiriolwr mewn achos;*
*(d) paratoi i ddarparu eiriolaeth mewn achos; neu*
*(e) eiriolaeth mewn achosion.*

Gwaith Rheoledig yw help cyfreithiol (rhan 3, rheoliad 21 o’r Rheoliadau Gweithdrefnau). Mae hyn yn golygu bod y pŵer i benderfynu a yw’r rhan fwyaf o geisiadau’n gymwys yn cael ei ddirprwyo i ddarparwyr. Mae’r penderfyniad ynghylch a ddylid darparu eithriad modd ar gyfer gwaith cwestau yn cael ei wneud gan y DLAC. Mae help cyfreithiol i aelod o’r teulu ar gyfer cwestau yn cynnwys cyngor, cymorth a pharatoi, gan gynnwys paratoi cyflwyniadau ysgrifenedig i’r crwner yn nodi pryderon y teulu ac unrhyw gwestiynau y mae’r teulu’n dymuno i’r crwner eu codi gyda thystion. Nid yw’n cynnwys cyfarwyddo eiriolwr, paratoi i ddarparu eiriolaeth, nac eiriolaeth.

Yn 2024/25, cafodd yr LAA 277 o hawliadau am waith wedi’i gwblhau gan ddarparwyr ar gyfer gwasanaethau help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau. Cafwyd 215 o geisiadau am help cyfreithiol, gyda 152 o’r ceisiadau hyn yn cael esemptiad prawf modd.

**Gwasanaethau cyfreithiol eraill (OLS) ac eiriolaeth**

Mae OLS yn lefel unigryw o wasanaeth o dan y cynllun cymorth cyfreithiol sy’n berthnasol i gwestau yn unig, ac mae ganddo gwmpas cyfyng sy’n cwmpasu gwasanaethau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â darparu eiriolaeth.

Mae Rhan 1, rheoliad 10 o Reoliadau Gweithdrefnau 2012, yn nodi cwmpas OLS:

*Mae “gwasanaethau cyfreithiol eraill” yn golygu darparu unrhyw un o’r gwasanaethau cyfreithiol sifil canlynol-*
*(a) cyfarwyddo eiriolwr;*
*(b) paratoi i ddarparu eiriolaeth; neu*
*(c) eiriolaeth,*

*mewn achosion lle mae’r Cyfarwyddwr, ar ôl cymhwyso’r meini prawf rhinweddau perthnasol yn unol â rheoliadau a wnaed dan adran 11 y Ddeddf, wedi gwneud penderfyniad dan adran 10(2)(b) neu (4)(c) y Ddeddf.*

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cyfreithiol eraill yn cael eu trin, a byddant yn parhau i gael eu trin, o dan yr un rheolau â Gwaith Trwyddedig gan reoliad 66(1)(b) o'r Rheoliadau Gweithdrefnau. Y DLAC sy'n penderfynu ar bob cais am ECF.

Mae OLS yn cynnwys eiriolaeth mewn cwestau, sydd ond ar gael drwy ECF ar hyn o bryd:

- lle mae'r DLAC yn penderfynu bod angen cymorth cyfreithiol i atal achos o dorri neu berygl o dorri ECHR. Mewn gwirionedd, gwneir hyn yn bennaf mewn perthynas â'r rhwymedigaeth weithdrefnol o dan Erthygl 2 ECHR (hawl i fywyd); neu
- mae'r DLAC yn gwneud "penderfyniad ehangach er budd y cyhoedd" bod darparu eiriolaeth i'r unigolyn yn y cwest yn debygol o arwain at fuddion sylweddol (e.e. canfod arferion peryglus neu fethiannau systemig) i ddosbarth o bobl, ar wahân i'r ymgeisydd ac aelodau o deulu'r ymgeisydd.

Diffinnir eiriolaeth yn adran 42(1) LASPO:

*(1) Yn y Rhan hon-*

> *mae "eiriolaeth" yn golygu defnyddio hawl i ymddangos gerbron llys, tribiwnlys neu unigolyn arall;*

Yn 2024/25 derbyniodd yr LAA 401 o geisiadau ECF am eiriolaeth mewn cwestau. Caniatawyd 264.

## Trosolwg o'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)

Mae'r Bil - a elwir hefyd yn Gyfraith Hillsborough - yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn dilyn yr ymgyrch degawdau o hyd gan deuluoedd a gollodd anwyliaid. Bydd yn sicrhau bod swyddogion cyhoeddus ac awdurdodau yn glir ynghylch eu rôl i helpu archwiliadau neu ymchwiliadau i ganfod y gwirionedd, a phan fydd celwyddau neu achosion o guddio'r gwirionedd, bydd atebolrwydd a sancsiynau clir. Dyma'r tri phrif newid yn y Bil:

- dyletswydd gonestrwydd proffesiynol a chyfreithiol newydd ar swyddogion cyhoeddus i weithredu'n onest ac yn ddidwyll bob amser;
- trosedd newydd am gamarwain y cyhoedd; a
- hyrwyddo cydraddoldeb arfau, gan gynnwys drwy ddarparu cymorth cyfreithiol heb brawf modd ac eiriolaeth gyda chymorth cyfreithiol mewn cwestau lle mae awdurdod cyhoeddus yn berson â buddiant.

**Crynodeb o ddarpariaethau cymorth cyfreithiol y Bil**

*Ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol mewn cwest*

Mae'r Bil yn ceisio gwneud newidiadau hanesyddol i ehangu argaeledd cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Yn gyntaf, bydd yn sicrhau bod help cyfreithiol ac eiriolaeth o fewn y cwmpas a heb brawf modd ar gael i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth, mewn cwestau lle mae awdurdod cyhoeddus yn berson â buddiant. Mae hyn yn golygu y bydd pob aelod o'r teulu sydd wedi cael profedigaeth yn gallu cael gafael ar help cyfreithiol ar gyfer cwestau, ond bydd cyfyngiadau ar eiriolaeth.

Yn ail, bydd ceisiadau am eiriolaeth gyda chymorth cyfreithiol mewn cwest o fewn y cwmpas (gan gynnwys cwest cysylltiedig)[2] yn cael eu cyfyngu i un aelod o bob teulu. Pan fydd eiriolaeth wedi cael ei darparu i aelod o'r teulu, gall aelodau dilynol o'r teulu wneud cais o hyd am eiriolaeth ar wahân drwy'r cynllun ECF: lle bydd cymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu pan fydd angen osgoi torri hawliau'r ymgeisydd o dan yr EHCR, neu pan fydd penderfyniad ehangach er budd y cyhoedd yn cael ei wneud gan DLAC.

Rydym am sicrhau bod trefniadau cymorth cyfreithiol ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn cael eu cefnogi gan system symlach sy'n symleiddio agweddau gweithredol ar broses cwestau, gan gefnogi darparwyr yn well i gyflawni gwasanaethau cymorth cyfreithiol effeithlon ac effeithiol i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth. Mae'r camau rydym yn eu cymryd i gyflawni hyn wedi'u nodi yn y penodau canlynol.

---

[2]Mae cwest yn "gysylltiedig" ag un arall os yw uwch grwner wedi penderfynu bod yr achosion yn y cwestau i'w cynnal gyda'i gilydd (yn unol â rhan 4, atodlen 6 y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)).

# Pennod Un: Camau rydym yn eu cymryd ar drefniadau cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau

Mae'r bennod hon yn nodi'r camau cychwynnol yr ydym wedi barnu eu bod yn angenrheidiol i wella a symleiddio'r system. Maent yn sail i'r camau pellach sy'n destun ymgynghoriad ac, felly, maent yn gyd-destun pwysig i'r newidiadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch ym Mhennod Dau.

## Creu categori cyfreithiol contract cwestau

**Y system bresennol**

Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o waith cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei wneud o dan gategorïau penodol o gyfraith. Mae hyn yn caniatáu i'r LAA bennu safonau a gofynion ansawdd ar gyfer darparwyr sy'n briodol i'r categori penodol hwnnw, ac i fonitro nifer y darparwyr ym mhob categori. Mae'r strwythur hwn hefyd yn caniatáu i'r LAA gyfeirio cleientiaid at ddarparwyr cymorth cyfreithiol priodol drwy offer digidol fel 'Dod o hyd i ddarparwr cymorth cyfreithiol' a 'Gwiriwch a allwch chi gael cymorth cyfreithiol'.[3]

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gategori cyfreithiol ar gyfer cwestau. O dan y system bresennol, mae materion cwest yn dod o fewn pa gategori bynnag sydd fwyaf perthnasol i bwnc sylfaenol y cwest. Er enghraifft, mae achosion yn aml yn dod o dan hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, iechyd meddwl neu esgeuluster clinigol. Os nad yw cwest yn dod o fewn categori, gellir ei ddosbarthu o dan y categori gwaith amrywiol. Felly, mae angen i ddarparwyr fod â chontract yn y categori sydd â'r cysylltiad agosaf â phwnc y cwest. Ar gyfer yr LAA, mae hyn yn golygu bod y data cyfyngedig ar waith cwest wedi'i rannu ar draws sawl categori. Byddai'r her hon yn waeth pe na baem yn cyflwyno categori cyfreithiol cwestau newydd a byddai'n ei gwneud yn anoddach i ni sicrhau bod digon o ddarparwyr i weithio gyda theuluoedd ar ôl ehangu.

Bu modd rheoli'r system ar gyfer yr hyn a fu'n faes gwaith lefel isel yn hanesyddol. Fodd bynnag, byddai'n anodd iawn rheoli'r system hon ar gyfer yr hyn a allai fod, ar ôl i'r Bil ddechrau, yr ail faes gwariant mwyaf mewn cymorth cyfreithiol sifil. Byddai'r heriau o ran ehangu'r system bresennol yn cynnwys gallu cyfeirio cleientiaid yn effeithiol at gronfa o

[3] https://find-legal-advice.justice.gov.uk; https://www.gov.uk/legal-aid/check-legal-aid

ddarparwyr cymorth cyfreithiol sy'n barod i ymgymryd â gwaith cwest, rheoli ac adrodd ar gostau a delir i ddarparwyr am waith cwest, datblygu a mesur capasiti darparwyr, a datblygu safonau ansawdd a phrofiad sy'n benodol i waith cwest.

Gall y trefniadau contract presennol hefyd atal darparwyr newydd posibl rhag symud o faes lle rydym wrthi'n ceisio cefnogi twf yn y farchnad. Y rheswm am hyn yw y byddai angen i newydd-ddyfodiaid sy'n dymuno canolbwyntio'n bennaf ar gwestau fodloni'r gofynion ansawdd ar gyfer categori cyfreithiol presennol. Mae'n debygol y byddai angen iddynt hefyd ddal nifer o gontractau sifil i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd ag amrywiaeth o wahanol achosion cwest.

**Y camau rydym yn eu cymryd**

Rydym am gael system cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau sy'n hawdd ei defnyddio i ddarparwyr a'r LAA ac, yn hollbwysig, sy'n cefnogi teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn effeithiol ac yn effeithlon, i gael gafael ar y cymorth cyfreithiol y mae ganddynt hawl iddo.

Am y rhesymau hyn, mae'r LAA yn bwriadu **cyflwyno categori contract cwestau newydd** gyda'i safonau ansawdd ei hun. Bydd hyn yn gweithredu'n anghyfyngedig, sy'n golygu y byddai'r darparwyr presennol yn dal yn gallu cynnal gwaith cwest o dan eu contractau presennol. Nid yw'r cynnig hwn yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond bydd yn cynnwys ymgysylltu â chyrff ymgynghorol yr LAA (Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol, a Chynghrair y Gwasanaeth Cynghori).

Byddai gweithredu'r categori cwestau newydd, ar sail anghyfyngedig, yn caniatáu i ddarparwyr presennol barhau i wneud gwaith cwest o dan eu categorïau contract presennol, ar yr un pryd â galluogi darparwyr newydd neu ddarparwyr presennol ymgeisio am y categori cwest pwrpasol.

## Newidiadau i drefniadau cymorth cyfreithiol Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig ar gyfer gwaith achos cwest

**Y system bresennol**
Fel y disgrifir yn y cyflwyniad, mae eiriolaeth mewn cwestau (o dan OLS) yn cael ei thrin fel Gwaith Trwyddedig. Diffinnir hyn yn y Rheoliadau Gweithdrefnau fel gwaith i gyfarwyddo eiriolwr, paratoi i ddarparu eiriolaeth, a darparu eiriolaeth.

**Y camau rydym yn eu cymryd**
Rydym yn bwriadu gosod diwygiad technegol i'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â rheoliad 19 o'r Rheoliadau Rhinweddau, i ddiwygio'r diffiniad o OLS.

O dan y diwygiad arfaethedig, ac yn amodol ar ystyriaeth Seneddol, byddai rheoliad 19 yn dweud:

*Mae "gwasanaethau cyfreithiol eraill" yn golygu darparu unrhyw wasanaethau cyfreithiol sifil ar wahân i*
*(a) weithredu fel cyfryngwr neu gymrodeddwr, neu*
*(b) cychwyn neu gynnal achos llys.*

Pwrpas y diwygiad hwn yw symleiddio'r broses cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ddarparwyr gadw achos Gwaith Rheoledig yn agored ar gyfer help cyfreithiol ac achos Gwaith Trwyddedig ar gyfer OLS tan ddiwedd cwest. Mae darparwyr yn hawlio costau ar draws y ddwy ffeil ar yr un pryd ac mae gan yr LAA ddwy broses ar wahân ar gyfer asesu'r costau.

Bydd y diwygiad yn sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gyfer proses cwest yn cyd-fynd yn agosach â meysydd eraill cymorth cyfreithiol sifil. Bydd cymorth cyfreithiol yn cael ei neilltuo ar gyfer cyngor a chymorth ac, ar ôl rhoi OLS i aelod o'r teulu sydd wedi cael profedigaeth, cwmpesir yr holl wasanaethau dilynol gan y math hwnnw o wasanaeth. Bydd aelodau o'r teulu nad ydynt yn derbyn OLS yn parhau i dderbyn cymorth cyfreithiol. Bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth i ddarparwyr a'r LAA a bydd yn sicrhau bod darparwyr yn gallu cael gafael ar y taliadau ar gyfrif sy'n rhan o'r cynllun Gwaith Trwyddedig am gyfran fwy o gostau.

Yn amodol ar gytundeb Seneddol i'r diwygiad hwn, bwriadwn hefyd ddiwygio, drwy is-ddeddfwriaeth, reoliad 10 o Reoliadau Gweithdrefnau 2012 i gyd-fynd â'r diffiniad diwygiedig yn y Rheoliadau Rhinweddau uchod. Cynigiwn ddiwygio rheoliad 9 ac atodlen 4 gysylltiedig y Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth i gynnwys cyfraddau ffioedd elfennau gwasanaeth help cyfreithiol yn y math estynedig o OLS, gyda'r elfennau gwasanaeth eirioli presennol.

Ein newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth yw ffocws yr ymgynghoriad hwn, a nodir ym Mhennod Dau.

# Pennod Dau: Y cynigion

Mae'r Bennod hon yn nodi ein cynigion ymgynghori ar gyfer newidiadau i'r cynllun ffioedd help cyfreithiol, ac i'r cynllun ffioedd ar gyfer OLS, drwy ddiwygiadau i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth. Rydym yn nodi pob cynnig isod yn ôl y trefniadau presennol, yr achos dros newid a'r newid arfaethedig.

## Newidiadau i'r cynllun ffioedd help cyfreithiol

**Y system bresennol**
Darperir cymorth cyfreithiol mewn cwest dan help cyfreithiol (cyngor a chymorth cyfreithiol) ac OLS (eiriolaeth). Mae un cynllun ffioedd eiriolaeth, a amlinellir yn atodlen 4 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth. I'r gwrthwyneb, telir help cyfreithiol ar wahanol gyfraddau yn dibynnu ar y categori cyfreithiol y mae gan y darparwr gontract ynddo. Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr yn cael ffioedd gwahanol yn dibynnu ar y categori cyfreithiol y maent yn gwneud gwaith cwest oddi tano.

Gall cymhlethdod cyfraddau gwahanol ar draws sawl categori o gyfraith arwain at ansicrwydd ynghylch taliad cydnabyddiaeth a chymhlethu'r gwaith o weinyddu cymorth cyfreithiol mewn cwest gan yr LAA. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i symleiddio prosesau o fewn y systemau cymhleth hyn, a fyddai'n cyflymu ceisiadau a phenderfyniadau, mynediad at gymorth cyfreithiol, a thaliadau i ddarparwyr. Bydd yr heriau hyn yn dod yn fwy amlwg ar ôl ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau a chynyddu'r niferoedd, gan ei gwneud yn ofynnol i'r system weithredu'n fwy effeithlon ar raddfa fawr.

Mae Cymal 9 y Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth yn datgan bod yn rhaid i'r Arglwydd Ganghellor dalu taliad cydnabyddiaeth i ddarparwr gwasanaethau cyfreithiol sifil mewn perthynas â chwest ar ffurf help cyfreithiol, yn unol â'r contract perthnasol a'r ffioedd a'r cyfraddau sy'n daladwy yn atodlen 1.

Mae'r tabl isod yn nodi'r trothwyon ffioedd dianc a ffioedd sefydlog presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y categorïau mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cwestau: amrywiol, esgeulustod clinigol, CAPA ac iechyd meddwl. Gallai ehangu cymorth cyfreithiol mewn cwest ddod â chwestau i gategorïau eraill, y mae rhai ohonynt yn denu ffi uwch na'r gyfradd CAPA yr ydym yn bwriadu ei defnyddio. Gweler atodlen 1 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth am y rhestr lawn o ffioedd help cyfreithiol cyfredol.

| Categori | Ffi Safonol | Trothwy Ffi Ddianc |
|---|---|---|
| **Amrywiol (pob mater arall)**<br>Tabl 1 | £79 | £237 |
| **Esgeuluster clinigol**<br>Tabl 1 | £195 | £585 |
| **Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus**<br>Tabl 1 | £239 | £717 |
| **Iechyd meddwl (ddim yn ymwneud â thribiwnlysoedd)**<br>Tabl 5(a) | £253 | £759 |

**ac eithrio TAW*

Mae'r tabl isod yn nodi'r ffioedd presennol fesul awr sy'n berthnasol pan fydd achosion wedi osgoi'r ffi sefydlog, a chyfraddau eitemau ar gyfer y categorïau cyfreithiol mwyaf cyffredin (gyda'i gilydd pan fydd categorïau'n rhannu'r un cyfraddau).

| Categori | Gweithgaredd | Cyfradd fesul awr (Llundain) | Cyfradd fesul awr (tu allan i Lundain) |
|---|---|---|---|
| **Amrywiol (materion nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth) ac esgeuluster clinigol**<br><br>Tabl 7(e) | Paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth | £46.53 | £43.88 |
| | Teithio ac amser aros | £24.62 | £24.62 |
| | Llythyrau a galwadau ffôn arferol | £3.60 (fesul eitem) | £3.47 (fesul eitem) |

| Categori | Gweithgaredd | Cyfradd fesul awr (Llundain) | Cyfradd fesul awr (tu allan i Lundain) |
|---|---|---|---|
| **Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus ac iechyd meddwl**<br><br>Tabl 7(a) | Paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth | £52.65 | £48.24 |
| | Teithio ac amser aros | £27.81 | £27.00 |
| | Llythyrau a galwadau ffôn arferol | £4.05 (fesul eitem) | £3.78 (fesul eitem) |

**ac eithrio TAW*

**Yr achos dros newid**

Mae'r cyfraddau help cyfreithiol yn y categorïau cyfreithiol presennol yn berthnasol ar draws ystod eang o waith a wneir mewn categori. Mae hyn wedi golygu, lle mae darparwr wedi ymgymryd â gwaith cwest, bod y cyfraddau y maent wedi'u cael wedi amrywio, ar sail categori'r gyfraith yn hytrach na chymhlethdod neu hyd y gwaith cwest ei hun.

Er bod nifer yr achosion cwest cymorth cyfreithiol wedi bod oddeutu 200 - 400 o achosion y flwyddyn yn hanesyddol, ni fu angen ystyried dull mwy cyson o ymdrin â thaliadau cydnabyddiaeth. Fodd bynnag, gallai'r darpariaethau cymorth cyfreithiol yn y Bil arwain, dros amser, at oddeutu 11,400 o achosion cymorth cyfreithiol mewn cwest bob blwyddyn.

Un o nodau craidd y Bil yw cefnogi hawl teuluoedd i gael gafael ar gymorth cyfreithiol, yn benodol mewn perthynas â chwestau. Yn erbyn y nod hwn, mae perygl y bydd cadw amrywiadau yn lefelau'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cwestau yn rhoi cymhellion anghyson i gapasiti darparwyr ymgymryd â gwaith cwest, gan arwain at anghysondebau posibl o ran argaeledd. Fel rhan o'r gwaith i weithredu'r newidiadau yn y Bil, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r amrywiad hwn mewn ffioedd yn awr, gan wella tegwch drwy roi cydnabyddiaeth ariannol yn gyson i'r holl ddarparwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol mewn cwest.

Felly, rydym yn cynnig sefydlu cynllun ffioedd cwestau a fyddai'n berthnasol ar draws pob achos cwest, ni waeth o dan ba gontract y mae darparwr yn gwneud y gwaith hwn. Wrth ystyried opsiynau ar gyfer un cynllun ffioedd help cyfreithiol i gwestau, rydym wedi canolbwyntio ar ddewisiadau amgen o fewn y cynlluniau ffioedd presennol. Yn hanesyddol, mae 90% o hawliadau am help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau wedi cael eu talu

drwy'r ffi CAPA. Yn anecdotaidd, mae llawer o gwestau sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus fel personau â buddiant yn cynnwys cyrff y GIG ac rydym yn rhagweld, ar ôl i'r Bil ddechrau, y gallai fod mwy o achosion cymorth cyfreithiol mewn cwest sy'n ymwneud â themâu esgeuluster clinigol. Mae'r ffi help cyfreithiol ar gyfer esgeuluster clinigol yn is na ffi help cyfreithiol CAPA.

Er bod ffi sefydlog help cyfreithiol CAPA yn is nag mewn rhai categorïau eraill o gymorth cyfreithiol (er enghraifft, iechyd meddwl a gofal cymunedol), byddai'n efelychu'r gyfradd ar gyfer y mwyafrif helaeth o achosion help cyfreithiol mewn cwest a hawliwyd hyd yma, ac yn sylweddol uwch na chyfradd y categori cyfreithiol y gallai llawer o achosion yn y dyfodol (h.y. esgeuluster clinigol) fod yn gysylltiedig ag ef fel arall.

Byddai hyn yn gwneud y broses taliadau cydnabyddiaeth yn gyson ac yn rhoi eglurder i ddarparwyr ynghylch ffioedd help cyfreithiol mewn cwest y byddant yn cael eu talu. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o ddarparwyr (presennol a newydd) yn elwa o dan yr opsiwn hwn.

**Newidiadau arfaethedig**

Er mwyn cyflawni'r cynnig o dalu am help cyfreithiol cwest ar gyfraddau CAPA, byddem yn diwygio rheoliad 9 a rhannau 1 a 2 o atodlen 1 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth i greu ffi newydd am yr holl waith help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau.

Byddai help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau ar gyfer pob aelod o'r teulu yn destun taliad cydnabyddiaeth yn unol â ffi safonol a throthwy dianc yn unol â thabl cyfredol 1 o ran 1 atodlen 1, a chyfraddau'r ffi ddianc fesul awr yn unol â thabl cyfredol 7(a) o ran 2 o atodlen 1 (h.y. yn seiliedig ar gyfraddau CAPA). Byddai darparwyr yn derbyn y ffi safonol o £239 (heb gynnwys TAW). Pe bai costau'r achos yn fwy na'r trothwy ffi dianc o £717 (lle mae'r gwaith a wneir mewn gwirionedd, o'i gyfrifo ar gyfradd fesul awr, yn fwy na thair gwaith y ffi safonol), byddai darparwyr wedyn yn cael y cyfraddau fesul awr ac uned a nodir ar hyn o bryd yn Nhabl 7(a) o ran 2 o atodlen 1.

Rydym hefyd yn bwriadu dileu'r gweithgaredd 'eiriolaeth' o'r disgrifydd 'paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth' ar gyfer y ffi help cyfreithiol mewn cwest newydd. Nid yw'r gweithgaredd hwn yn berthnasol i achosion cwest o dan y gwasanaethau help cyfreithiol. Wrth symud ymlaen, ni fydd yn berthnasol o hyd i'r math o waith yr ydym yn rhagweld y bydd yn cael ei hawlio o dan y cyfraddau hyn, ac felly rydym yn bwriadu tynnu'r gweithgaredd hwn o'r tablau diwygiedig. Nid yw hyn yn cael effaith sylweddol a bydd eiriolaeth yn parhau i gael cydnabyddiaeth ariannol yn unol â'r cyfraddau yn atodlen 4 o dan OLS.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i ffioedd na threfniadau taliadau cydnabyddiaeth bargyfreithwyr yn yr ymgynghoriad hwn. Fel y nodir yn ein crynodeb ar ddiwedd y bennod

hon, byddwn yn monitro effaith ein newidiadau arfaethedig ar gapasiti'r farchnad ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwest. Lle bo angen, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer newidiadau i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â ffioedd bargyfreithwyr.

## Newidiadau i reoliadau taliadau cydnabyddiaeth: gwasanaethau cyfreithiol eraill (OLS)

### Y system bresennol

Fel y nodir ym Mhennod Un, yn wahanol i achosion cymorth cyfreithiol sifil eraill, unwaith y bydd darparwr yn gwneud cais am Waith Trwyddedig mewn cwestau, nid yw elfennau'r Gwaith Rheoledig yn dod i ben. Mae help cyfreithiol Gwaith Rheoledig ac elfennau eiriolaeth Gwaith Trwyddedig gwasanaeth cymorth cyfreithiol, pan gânt eu caniatáu, yn cael eu rhedeg ar y cyd. Mae hyn yn golygu bod darparwyr wedi gorfod bilio ar gyfer yr achos gan ddefnyddio dau hawliad drwy brosesau a systemau digidol ar wahân, am waith a wnaed yn ystod yr un cyfnod o amser, gyda gwybodaeth am yr achos yn cael ei rhannu yn unol â hynny. Yn y pen draw, mae hyn yn gofyn am baratoi ac asesu dau hawliad ar wahân ar gyfer pob achos, er bod hynny ar gyfer gwaith a wneir ochr yn ochr.

O dan y prosesau Gwaith Rheoledig (help cyfreithiol) presennol, mae'r holl gostau ar achos fel arfer yn cael eu bilio ar ddiwedd yr achos. I'r gwrthwyneb, o dan Waith Trwyddedig (OLS), mae taliadau ar gyfrif ar gael yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu y gall darparwyr hawlio a chael eu talu am eu gwaith o dan Waith Trwyddedig wrth i'r achos fynd rhagddo.

*Newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i gwmpas Gwasanaethau Cyfreithiol Eraill*

Fe wnaethom nodi ym Mhennod Un ein bod yn bwriadu gwneud diwygiad technegol i'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â rheoliad 19 o'r Rheoliadau Rhinweddau, i ddiwygio'r diffiniad o OLS. Yn amodol ar y diwygiad hwn yn cael cefnogaeth Seneddol, rydym hefyd yn bwriadu diwygio, drwy is-ddeddfwriaeth, reoliad 10 o Reoliadau Gweithdrefnau 2012 i gyd-fynd â'r diffiniad diwygiedig yn y Rheoliadau Rhinweddau.

### Yr achos dros newid

Fel y nodir uchod, rydym yn ceisio symleiddio'r broses o reoli a bilio achosion cymorth cyfreithiol mewn cwest, yn gyntaf drwy ddiwygio'r diffiniad o OLS. Os caiff ein diwygiad i'r Bil gefnogaeth Seneddol, byddai angen i ni ddiwygio'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth fel bod OLS (yn atodlen 4) yn parhau i nodi'r taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer gwasanaethau eirioli, ond hefyd elfennau gwasanaeth o waith 'nad ydyw'n ymwneud ag eiriolaeth' help

cyfreithiol. Mae hyn yn angenrheidiol i roi bwriad ein diwygiad i'r Bil ar waith, ac i roi eglurder i ddarparwyr ynghylch y mathau o waith, a'r cyfraddau ffioedd sy'n berthnasol.

Heb y newidiadau hyn, byddai'r taliadau cydnabyddiaeth yn aneglur a byddai angen i'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y darparwyr, gan gynnwys darparwyr newydd, sy'n gwneud gwaith cwest addasu i system ffioedd a bilio gymhleth, a allai danseilio eu parodrwydd a'u gallu i wneud gwaith o'r fath. Byddai ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol mewn cwest o dan y Bil yn golygu rheoli mwy o waith achos cwest o dan systemau cymhleth gyda phrosesau sy'n gorgyffwrdd ar gyfer bilio, asesu a thalu. Wrth i nifer yr achosion gynyddu, felly hefyd y baich ar ddarparwyr, gyda'r perygl y bydd prosesau gweinyddol yn defnyddio eu hamser a'u hadnoddau, y gellid eu defnyddio'n well i gefnogi cleientiaid. Mae ymgysylltu â rhai darparwyr wedi awgrymu:

- bod y dull presennol o rannu cyllid yn llafurddwys;
- nid yw bilio, llif arian a thaliadau interim yn ddigonol ar gyfer achosion cwest, gyda'r rhain yn aml yn para blynyddoedd yn hytrach na misoedd. Ar hyn o bryd, mae darparwyr fel arfer yn hawlio tâl am help cyfreithiol ar ddiwedd achosion, sy'n annigonol o ystyried hyd a gwerth achosion; a
- byddai bilio drwy dystysgrif cymorth cyfreithiol yn rhoi sicrwydd a gwell mynediad at daliadau ar gyfrif.

Yn yr un modd, byddai cynyddu nifer yr achosion gan ddefnyddio'r trefniadau presennol yn arwain at feichiau gweithredol sylweddol ar yr LAA. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r LAA asesu costau ar ddau hawliad gwahanol, gan ddefnyddio dwy broses ar wahân yn hytrach nag edrych ar y costau a gyflwynir yn gyfannol ar un mater. Byddai cynnal y trefniadau presennol ar y cwmpas estynedig yn cymhlethu'r gwaith o reoli achosion byw, asesiadau bilio a sicrwydd, ac yn ei gwneud yn anoddach dod o hyd i faterion fel dyblygu costau neu hawliadau sydd wedi'u cam-ddyrannu. Nid yw'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i asesu hawliadau am gymorth cyfreithiol wedi'u cynllunio ar gyfer nifer mor uchel o achosion cost uchel.

**Newidiadau arfaethedig**

O fewn tystysgrif drwyddedig ar gyfer OLS, rydym yn bwriadu caniatáu i ddarparwyr hawlio am elfennau gwasanaeth help cyfreithiol ar gyfraddau fesul awr (hynny yw, heb ffi sefydlog neu drothwy dianc), wedi'u gosod ar gyfraddau presennol CAPA, yn ogystal â gwaith eiriolaeth (ar y cyfraddau a nodir ar hyn o bryd yn atodlen 4 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth). Mae elfennau gwasanaeth help cyfreithiol yn cynnwys amser a gronnwyd wrth baratoi, teithio a mynychu, yn ogystal â llythyrau a galwadau ffôn arferol sy'n gysylltiedig â darparu gwaith nad yw'n ymwneud ag eiriolaeth yn yr achos (gweler Atodiad A). Byddai

hyn yn ein galluogi i adlewyrchu'r model cymorth cyfreithiol sifil safonol yn well. Ein bwriad yw gweithredu'r newidiadau hyn i achosion o fewn y cwmpas ac ECF er mwyn osgoi darnio systemau a heriau gweithredol i'r LAA a darparwyr.

Byddai hyn yn golygu, pan fydd aelod o'r teulu'n cael eiriolaeth â chymorth cyfreithiol o dan yr OLS sydd newydd ei ddiffinio, y byddent hefyd yn gallu cael (a byddai eu darparwyr yn cael taliad cydnabyddiaeth am) elfennau gwasanaeth sy'n cael eu dosbarthu ar hyn o bryd o dan help cyfreithiol (cymorth nad yw'n ymwneud ag eiriolaeth) o dan yr un dystysgrif. Ni fyddai'n rhaid i ddarparwyr weithio o dan ddwy system wahanol ar draws yr achos.

Mewn achosion lle mae cyngor a chymorth yn cael eu hariannu ond nad yw eiriolaeth yn cael ei hariannu, byddai unigolion yn parhau i gael help cyfreithiol dan Waith Rheoledig.

*Taliadau cydnabyddiaeth OLS diwygiedig: gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag eiriolaeth a gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth*
Rydym yn cynnig diwygio rheoliad 9 o'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth, a'r atodlen 4 gysylltiedig i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth. Rydym yn cynnig diwygio atodlen 4 i gynnwys tri thabl. Byddai'r cyntaf yn cwmpasu cyfraddau darparwyr ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag eiriolaeth (elfennau gwasanaeth a geir ar hyn o bryd dan help cyfreithiol); byddai'r ail yn cynnwys cyfraddau darparwyr ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn unol â thabl cyfredol 1; a byddai'r trydydd yn cynnwys cyfraddau bargyfreithwyr ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn unol â thabl cyfredol 2. Mae'r union gyfraddau am daliadau cydnabyddiaeth a gynigir yn Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori hon.

Byddai'r cyfraddau gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag eiriolaeth yn berthnasol i waith y gellid ei hawlio ar hyn o bryd o dan help cyfreithiol ar gyfer cwestau. Byddai'n ariannu gwaith ar gyfer cleient na ellid rhoi taliad cydnabyddiaeth iddo ar hyn o bryd o dan OLS oherwydd nad yw'n gysylltiedig ag eiriolaeth mewn cwest.

*Tabl gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag eiriolaeth*
Byddai taliad cydnabyddiaeth nad yw'n gysylltiedig ag eiriolaeth o dan y cynnig hwn yn atgynhyrchu'r cyfraddau fesul awr ac uned presennol yng nghynllun ffioedd CAPA yn Nhabl 7(a) o ran 2 o atodlen 1 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth. Byddai'r ffioedd hyn yn cael eu hailadrodd yn atodlen 4 ac yn cwmpasu unrhyw weithgareddau cwest nad ydynt yn ymwneud ag eiriolaeth y disgwylir i'r darparwr eu cynnal yn ystod y cwest (ac eithrio'r rheini sydd wedi'u heithrio'n gyfannol o OLS fel gweithredu fel cyfryngwr/cymordeddwr/cychwyn neu gynnal achosion). Ein bwriad yma yw bod yn gyson ar draws ein dull gweithredu ar gyfer Gwaith Trwyddedig a'i reolaethau dros wariant a bilio.

Rydym hefyd am dynnu sylw at y ffaith ein bod, yn unol â'r diwygiad a ddisgrifiwyd yn flaenorol i ffioedd help cyfreithiol, yn bwriadu dileu'r gweithgaredd 'eiriolaeth' o'r disgrifydd 'paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth' yn y tabl newydd yn rhan 2 o atodlen 1. Yn hanesyddol,

nid yw’r gweithgaredd hwn wedi bod yn berthnasol i achosion help cyfreithiol mewn cwest ac, wrth symud ymlaen, ni fydd yn berthnasol i’r math o waith rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei hawlio o dan y cyfraddau hyn.

Mae’r union gyfraddau a gynigir ar gyfer y rhain i’w gweld yn Atodiad A i’r ddogfen ymgynghori hon.

*Tabl ffioedd/cyfraddau eiriolaeth*

- Darparwyr: byddai’r ail dabl yn cadw cyfraddau darparwyr presennol ar gyfer gweithgareddau eiriolaeth ac sy’n ymwneud ag eiriolaeth, fel paratoi ar gyfer eiriolaeth. Mae’r tabl hwn hefyd yn cadw’r gwahanol daliadau cydnabyddiaeth sy’n seiliedig ar statws cyfreithiwr, sy’n adlewyrchu’r ffaith y bydd gan achosion wahanol raddau o gymhlethdod ac arbenigedd a phrofiad gofynnol; a
- Bargyfreithwyr: byddai’r trydydd tabl yn cadw cyfraddau bargyfreithwyr presennol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth.

Mae’r union gyfraddau a gynigir ar gyfer y rhain i’w gweld yn Atodiad A.

## Crynodeb o'r cynigion

Bwriad ein cynigion ar gyfer newidiadau i’r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth yw cefnogi proses fwy effeithlon ac effeithiol o fewn trefniadau cymorth cyfreithiol mewn cwestau, am y rhesymau a nodir. Rydym wedi seilio ein cynigion uchod ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac rydym o’r farn bod y cynigion hyn yn adlewyrchu dull rhesymegol sy’n cydbwyso prosesau symlach â’r angen am sicrwydd a rheolaeth ddigonol dros sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Rydym wedi ymrwymo i fonitro nifer a chymhlethdod achosion cymorth cyfreithiol mewn cwest yn ofalus ar ôl i’r cwmpas gael ei ehangu o dan y Bil, ac i gydweithio â rhanddeiliaid i ddeall effaith y newidiadau hyn yn ymarferol. I’r perwyl hwn, yn ogystal â’r cwestiynau ar y cynigion, mae Cwestiwn 5 yn gofyn am farn ymatebwyr ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylem eu hystyried yn y dyfodol mewn perthynas â thaliadau cydnabyddiaeth.

# Holiadur

Darllenwch **bob cwestiwn cyn ymateb.** Er bydd pob ymateb yn cael ei ystyried yn unigol, gellir trefnu ymatebion yn themâu gyda chymorth deallusrwydd artiffisial, felly **mae'n hanfodol bod eich atebion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn a ofynnir.**

**1. Rydym yn cynnig symud i un cynllun ffioedd am help cyfreithiol mewn cwest. Ydych chi'n cytuno?**

**Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr / Dim gwahaniaeth**

**1.1 Rhowch resymau am eich dewis:**

**2. Rydym yn cynnig y dylai'r un cynllun ffioedd ar gyfer help cyfreithiol mewn cwest fod yn seiliedig ar ffioedd presennol hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus (CAPA) (a nodir yn nhabl 1 yn rhan 1, a thabl 7(a) yn rhan 2 o atodlen 1 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth). Ydych chi'n cytuno?**

**Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr / Dim gwahaniaeth**

**2.1 Rhowch resymau am eich dewis:**

**3. Yn amodol ar ddiwygio'r Bil yn llwyddiannus i'r Rheoliadau Rhinweddau, rydym yn cynnig diwygio atodlen 4 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth i gynnwys cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad yw'n ymwneud ag eiriolaeth, ochr yn ochr â chyfraddau presennol ar gyfer gwaith eiriolaeth i aelod o'r teulu sy'n cael cymorth cyfreithiol o dan wasanaethau cyfreithiol eraill. Ydych chi'n cytuno?**

**Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr / Dim gwahaniaeth**

**3.1 Rhowch resymau am eich dewis:**

**4. Ar gyfer gwaith nad yw'n ymwneud ag eiriolaeth o dan atodlen 4 ddiwygiedig, rydym yn cynnig ein bod yn atgynhyrchu'r cyfraddau fesul awr yn nhabl 7(a) yn rhan 2 o atodlen 1 i'r Rheoliadau Taliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus. Ydych chi'n cytuno?**

**Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr / Dim gwahaniaeth**

**4.1 Rhowch resymau am eich dewis:**

5. **Wrth i gwmpas cymorth cyfreithiol mewn cwest ehangu, rydym yn bwriadu monitro'n ofalus effaith y newidiadau arfaethedig i'n trefniadau taliadau cydnabyddiaeth ar gapasiti'r farchnad ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwest. Pa ddangosyddion y dylid eu hystyried er mwyn gwneud hyn?**

6. **Wrth ystyried ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol mewn cwest, pa ffactorau (ac eithrio taliad cydnabyddiaeth) allai weithredu fel:**
   **a) cymhelliant, neu**
   **b) rwystr i'ch cwmni?**
   **Esboniwch pam ar gyfer pob ffactor.**

7. **A fyddai'r cynigion hyn yn cael effaith ar gydraddoldeb nad ydym wedi'i nodi nac wedi rhoi digon o bwyslais arno yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn?**

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Pennod Tri: Casgliad a’r camau nesaf

Bydd elfennau cymorth cyfreithiol y Bil yn arwain at ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol mewn cwest yn sylweddol. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen o ran galluogi teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed yn ystod proses y cwest.

Rydym yn cydnabod bod hon hefyd yn her fawr y mae’n rhaid i ni ei hateb: sicrhau bod y system yn gallu darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau sy’n effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Credwn fod y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn gam pwysig tuag at gyflawni’r her hon, gan gefnogi darparwyr a’r LAA i roi cymorth cyfreithiol.

Fodd bynnag, nid ydym yn honni y bydd y cynigion hyn yn cynrychioli’n bendant ac yn gynhwysfawr yr holl gamau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau ein bod yn ymateb yn gynaliadwy i’r her hon yn y dyfodol. Bydd y cynigion rydym yn eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn helpu i sicrhau y bydd yr ehangu sylweddol mewn cymorth cyfreithiol yn bodloni disgwyliadau teuluoedd ac yn darparu ffordd symlach o ddelio â’r hawliadau hyn. Byddwn yn parhau i ystyried yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau effeithiolrwydd parhaus trefniadau cymorth cyfreithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol.

Mae ein hymgynghoriad yn croesawu eich barn ar y cynigion hyn, a hefyd ar y ffordd orau o fonitro effeithiolrwydd cymorth cyfreithiol yn y dyfodol.

**Bydd yr ymgynghoriad yn aros yn agored tan 19 Mehefin 2026.**

**Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hymateb i’r ymgynghoriad erbyn hydref 2026.**

# Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion Cyswllt/Sut mae Ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 19 Mehefin 2026 at:

**Civil Legal Aid Policy Team**

Ministry of Justice

102 Petty France

London SW1H 9AJ

E-bost: civil.legalaidpolicy@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan civil.legalaidpolicy@justice.gov.uk

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn hydref 2026. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio ag ymrwymiadau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi egluro i ni pam rydych chi o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn ni'n cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Asesiad o'r Effaith, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac yn gofyn am eich barn drwy gwestiwn 7.

## Asesiad o'r Effaith

Mae’r Asesiad o'r Effaith yn dangos, yn gyffredinol, nad yw’n debygol y bydd effaith niweidiol ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol sy’n gweithio ar gwestau, ac mewn rhai ffyrdd y gallent elwa o’r cynigion hyn. Byddai darparwyr mewn sawl categori o gyfraith yn gweld cynnydd mewn ffioedd cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau, er y byddai rhai darparwyr yn gweld gostyngiad o’i gymharu â’r gyfradd ffioedd sefydlog ar gyfer eu categori o gyfraith. Byddai’r newidiadau hefyd yn symleiddio’r trefniadau presennol ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch ffioedd, gan leihau’r beichiau gweinyddol cyffredinol ar ddarparwyr a’r LAA o ran rheoli, bilio ac asesu hawliadau.

Bwriadwn gadw’r trefniadau presennol o ddim cyfraddau ffioedd penodedig ar gyfer bargyfreithwyr a gyfarwyddir gan ddarparwyr i gynnal agweddau ar help cyfreithiol. Nid yw’r cynigion yn debygol o effeithio’n benodol ar gleientiaid cymorth cyfreithiol ond gallent weld budd os bydd y newidiadau’n arwain at gapasiti marchnad a darparwr ychwanegol. Nid yw’r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol nac arbedion sylweddol i fusnesau, elusennau na’r sector gwirfoddol, nac i’r sector cyhoeddus.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ein hasesiad yw nad yw’r mesurau’n gwahaniaethu’n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 gan na fyddai’r cynigion yn trin unrhyw un yn llai ffafriol o ganlyniad i nodwedd warchodedig. Gweler y Datganiad Cydraddoldeb cysylltiedig ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn diweddaru ein hystyriaethau cydraddoldeb yn yr Ymateb i’r Ymgynghoriad.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae’r egwyddorion y dylai adrannau’r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi’u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet sydd i’w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# ATODIAD A: Cynlluniau ffioedd Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig Arfaethedig

Sylwch fod y cyfraddau yn yr Atodiad yn cynrychioli'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau Cydnabyddiaeth) 2013; fodd bynnag, sylwch fod enwau tablau yn ddangosol ar hyn o bryd ac y gallent newid wrth ddrafftio deddfwriaeth.

Sylwch hefyd fod cyfraddau bargyfreithwyr yn yr Atodiad hwn yn cyfeirio at waith sy'n ymwneud ag eiriolaeth yn unig, nid help cyfreithiol.

**Cyfraddau cymorth cyfreithiol**

Rhes ychwanegol ar gyfer tabl 1, rhan 1, atodlen 1

| Diffiniad Categori | Ffi Safonol | Trothwy Ffi Ddianc |
|---|---|---|
| **Cwestau** | £239 | £717 |

Tabl newydd (rhif i'w benderfynu), rhan 2, atodlen 1

*Cyfraddau fesul awr - Gwaith Rheoledig*

| Gweithgaredd | Cyfradd Llundain | Cyfradd y tu allan i Lundain |
|---|---|---|
| **Paratoi a Phresenoldeb** | £52.65 yr awr | £48.24 yr awr |
| **Teithio ac Amser Aros** | £27.81 yr awr | £27.00 yr awr |
| **Llythyrau a Galwadau Ffôn Arferol** | £4.05 fesul eitem | £3.78 fesul eitem |

### Cyfraddau nad ydyw'n ymwneud ag eiriolaeth dan wasanaethau cyfreithiol eraill

Tabl newydd (rhif i'w benderfynu), atodlen 4

| Gweithgaredd | Cyfradd Llundain | Cyfradd y tu allan i Lundain |
|---|---|---|
| **Paratoi a Phresenoldeb** | £52.65 yr awr | £48.24 yr awr |
| **Teithio ac Amser Aros** | £27.81 yr awr | £27.00 yr awr |
| **Llythyrau a Galwadau Ffôn Arferol** | £4.05 fesul eitem | £3.78 fesul eitem |

### Cyfraddau eiriolaeth dan wasanaethau cyfreithiol eraill

Tabl (rhif i'w benderfynu), atodlen 4 (dim newidiadau'n cael eu cynnig)

| Eitem | Gradd | Y tu mewn i Lundain (cyfradd fesul awr) | Y tu allan i Lundain (cyfradd fesul awr) |
|---|---|---|---|
| **Paratoi** | Uwch Gyfreithiwr | £75.27 | £71.55 |
| | Cyfreithiwr Arall | £63.80 | £60.75 |
| | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant | £45.90 | £40.17 |
| **Cynhadledd gyda'r Cwnsler** | Uwch Gyfreithiwr | £75.27 | £71.55 |
| | Cyfreithiwr Arall | £63.80 | £60.75 |
| | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant | £45.90 | £40.17 |

| Eitem | Gradd | Y tu mewn i Lundain (cyfradd fesul awr) | Y tu allan i Lundain (cyfradd fesul awr) |
|---|---|---|---|
| **Presenoldeb mewn gwrandawiad** | Uwch Gyfreithiwr | £57.05 | £57.05 |
| | Cyfreithiwr Arall | £45.90 | £45.90 |
| | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant | £27.68 | £27.68 |
| **Eiriolaeth (gan gyfreithiwr)** | Uwch Gyfreithiwr | £87.08 | £87.08 |
| | Cyfreithiwr Arall | £75.60 | £75.60 |
| **Teithio ac aros** | Uwch Gyfreithiwr | £22.28 | £22.28 |
| | Cyfreithiwr Arall | £22.28 | £22.28 |
| | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant | £11.25 | £11.25 |

**Cyfraddau bargyfreithiwr**

Tabl (rhif i'w benderfynu), atodlen 4 (dim newidiadau'n cael eu cynnig)

| Eitem | Categori | Cyfradd sefydlog |
|---|---|---|
| **Ffi briff** | Cwnsler Iau | £900 |
| | Cwnsler y Brenin | £1800 |
| **Ffi diweddaru** | Cwnsler Iau | £450 |
| | Cwnsler y Brenin | £630 |

[gadewch yn wag - tu mewn i'r clawr cefn]

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i civil.legalaidpolicy@justice.gov.uk.